# Arlunwyr Iddewig yng Nghymru: Heinz Koppel

**TAFLEN WYBODAETH A GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

## 1. Cofiant Heinz Koppel

Ganed yr artist Heinz Koppel i rieni Iddewig ym Merlin yn 1919. Ar ôl i'r Natsïaid ddod i rym yn yr Almaen, ymfudodd y teulu i Prag, Tsiecoslofacia (Y Weriniaeth Tsiec heddiw), ac yn ddiweddarach, yn 1938, ffodd i'r Deyrnas Unedig. Sefydlodd ei dad, Joachim Koppel, ffatri Aero Zipp yn Nhrefforest, ac astudiodd Heinz gelf yn Llundain. Roedd gan ei fam, Paula, arthritis difrifol ac ni allodd adael gyda gweddill y teulu; cafodd ei llofruddio yng Ngwersyll Difodi Treblinka yn y diwedd. Roedd ei gefnder, Harry Weinberger, yntau wedi ffoi o Tsiecoslofacia, yn arlunydd hefyd, ac roedd ganddynt yr un athro yn Llundain.

O'r flwyddyn 1944 bu Heinz yn byw yn Nowlais ger Merthyr Tudful, lle bu'n addysgu celf i blant ac oedolion. Ysbrydolwyd ei waith celf gan gefn gwlad o'i amgylch ac ardaloedd diwydiannol Cymru. Yn 1949 priododd ei gyd-arlunydd, Renate Fischl, a buont yn byw gyda'u plant yn Llundain a Lerpwl, cyn ymgartrefu yn y pen draw yng Nghwmerfyn, ger Aberystwyth.



*Heinz Koppel a Renate Fischl ar ddiwrnod eu priodas, 1949.*

*Llun trwy garedigrwydd Gaby Koppel.*

Roedd Heinz yn un o aelod-sylfaenwyr Grŵp 56 Cymru, sef sefydliad i arlunwyr ac iddo'r nod o hyrwyddo celf ac arlunwyr modernaidd Cymru.

Bu farw Heinz yn 1980 yn 61 oed.

## 2. Y paentiad '*Merthyr Blues*' gan Heinz Koppel

Mae 'Merthyr Blues' yn bortread o Ferthyr Tudful yn 1955.

"Mae'r arddull yn ysgogi cymhariaeth â chartwnau papur newydd. Mae gwraig yn gwthio ei phram heibio'r hen ddepo bysiau, mae dyn ar ysgol yn gludo hysbyseb am bowdr golchi Daz, tra bo cŵn yn ymddwyn yn wael ar y stryd. Mae'r gantores *blues* leol, sy'n hofran uwchben y dref ochr yn ochr â geiriau ei chân, yn cynnig ymdeimlad o obaith ac iachawdwriaeth i'r byd bob dydd isod."[1]

## 3. Gweithgareddau

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Cerddwch o amgylch y gofod nes y bydd eich athro'n galw llythyren o'r wyddor. Dewch o hyd i ffordd o greu siâp y llythyren hon â'ch corff – gallwch wneud hyn ar eich pen eich hun neu mewn grŵp bach. Ceisiwch gofio dilyniant y llythrennau.

**b)** Trafodwch â'r dosbarth cyfan:
- Beth y mae'r llythrennau'n ei sillafu?
- I beth y maent yn berthnasol?

**GWEITHGAREDD 2**

**a)** Darllenwch gofiant Heinz Koppel, edrychwch ar ei baentiad 'Merthyr Blues', a gwrandewch ar glip sain o gyfweliad â Harry Weinberg. Yn y clip, mae Harry'n siarad am ei gefnder a'i gyd-arlunydd Heinz Koppel.

**Trawsgrifiad Hanes Llafar:**

[1] Art UK, *Merthyr Blues,* Heinz Koppel (1919-1980), Amgueddfa Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd <https://artuk.org/discover/artworks/merthyr-blues-162225/search/actor:koppel-heinz-19191980-68749/page/1/view_as/grid> [cyrchwyd ar 2 Gorffennaf 2024].

*“Roedd gan Heinz [Koppel] o hyd lawer mwy o ddiddordeb na fi mewn dadansoddi gwaith, ac roedd gan ei waith duedd seicolegol bob amser, a oedd yn gorfod adlewyrchu rhyw gyflyrau meddwl hynod o ymwybodol – mae hynny'n swnio'n ofnadwy o'i ddweud felly – ond roedd yn fewnblyg iawn ac yn ddadansoddol iawn ynghylch popeth, nid dim ond ei waith.*

*Roedd ganddo ddwylo a bysedd tyner, ac roedd yr un tynerwch yn ei waith. Ac roedd hynny'n eithaf unigryw yn fy marn i.*

*[...]*

*Roedd y ddau ohonom, oherwydd ein cefndir a phopeth a oedd wedi digwydd, yn teimlo ein bod yn bobl ar y cyrion ac na allem, rywsut, gael ein derbyn gan y sefydliad celf.*

*[...]*

*Ac yna prynodd hen fferm yng Nghymru, ac o’r diwedd gadawodd y byd addysgu ac ymgartrefu ar y fferm honno yng Nghymru, a’i throi’n ymerodraeth fach iddo'i hun, lle lluniodd baentiadau hynod o ddiddorol a chywrain yr oeddwn yn eu hoffi’n fawr.”*

**b)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol mewn grwpiau bach:
- Sut y disgrifir gwaith Heinz Koppel gan ei gefnder?
- Pa fath o agwedd oedd gan Heinz at waith?
- Pam yr oedd Heinz yn teimlo fel rhywun "ar y cyrion"?
- Sut y dylanwadodd Cymru ar waith celf Heinz?

**GWEITHGAREDD 3**

Ail-greu'r paentiad ['Merthyr Blues'].

**a)** Ar ffurf dosbarth cyfan, byddwch 'nawr yn rhoi cynnig ar ail-greu'r paentiad *Merthyr Blues*: Ewch i mewn i'r gofod ac yna, naill ai ar eich pen eich hun neu'n rhan o grŵp bach, ffurfiwch ystum rhan o'r paentiad. Er enghraifft, gallech ddewis bod y person sy’n gwthio’r pram, neu, yn rhan o grŵp, greu siâp yr adeilad y tu ôl i'r unigolyn. Nid oes yna ffordd gywir nac anghywir i wneud hyn.

Byddwch yn greadigol yn eich dehongliad a'ch archwiliad o'r paentiad.

Edrychwch o'ch cwmpas ac ystyriwch:
- Beth y mae'r disgyblion eraill yn ei wneud?
- Sut yr ydych i gyd yn rhyngweithio ac yn ffitio gyda'ch gilydd?

**b)** Bydd eich athro'n chwarae darn o gerddoriaeth 'nawr. Defnyddiwch rythm a theimlad y gerddoriaeth i animeiddio'r ffigur a ddewiswyd gennych.

**c)** Ystyriwch a thrafodwch y canlynol â'r dosbarth cyfan:

- Sut y mae person yn symud?
- A yw adeilad yn sefyll yno'n unig, neu a yw'n dyrnu neu'n plycio neu'n siglo?
- Sut y mae'r holl rannau gwahanol hyn yn rhyngweithio?
- Sut yr ydych yn teimlo ynghylch defnyddio symudiad i ail-greu'r paentiad?